# Hybu arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion ar gyfer hybu ac adolygu gweithgareddau bywyd bob dydd gyda phlant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at y gwaith o gynllunio, gweithredu ac adolygu bywyd bob dydd gyda phlant a phobl ifanc yn ogystal â gweithio â grwpiau i hybu twf a datblygiad yr unigolyn. Mae hefyd yn hybu arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp fel profiad cadarnhaol sy'n ofalgar, yn feithringar ac yn ymatebol i anghenion plant a phobl ifanc.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi anghenion cyfathrebu, iaith a datblygiadol plant neu bobl ifanc
2. addasu amgylcheddau i gwrdd ag anghenion cyfathrebu a datblygu plant neu bobl ifanc
3. hybu a chynnal amgylcheddau diogel ynghyd â diwylliant o brofiadau grŵp cadarnhaol
4. gwrando ac ymateb mewn ffordd sy'n dangos gwerth a pharch at farn a phrofiadau plant neu bobl ifanc
5. bod ar gael i blant neu bobl ifanc ac eraill pan fyddant yn dymuno cyfathrebu â chi
6. bod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion a dewisiadau'r unigolyn a'r grŵp
7. annog plant neu bobl ifanc i gymryd tro, rhannu lle, ac ystyried barn a theimladau pobl eraill
8. hybu strategaethau i gefnogi plant neu bobl ifanc i ddatblygu trefniadau gosod ffiniau a rheoleiddio emosiynol
9. cefnogi plant neu bobl ifanc ac eraill i gytuno ar ganlyniadau mesuradwy y gellir eu cyflawni ar gyfer byw mewn grŵp
10. cefnogi plant neu bobl ifanc ac eraill i nodi gweithgareddau byw mewn grŵp sy'n eu cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau
11. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc ac eraill i gynllunio eu gweithgareddau unigol a byw mewn grŵp, gan ystyried anghenion eraill a chymorth ychwanegol
12. gweithio â phlant neu bobl ifanc ac eraill i gynllunio sut i reoli risgiau yn eu gweithgareddau bob dydd a byw mewn grŵp
13. annog plant neu bobl ifanc ac eraill i gynllunio sut y bydd eu canlyniadau'n cael eu monitro a'u hadolygu
14. cefnogi datblygiad ac annibyniaeth plant a phobl ifanc yn ystod gweithgareddau bob dydd a byw mewn grŵp
15. dathlu ac atgyfnerthu ymdrechion a chyflawniadau plant neu bobl ifanc
16. monitro cynnydd ac ymateb i risgiau wrth gynorthwyo plant neu bobl ifanc mewn gweithgareddau bob dydd a byw mewn grŵp
17. cefnogi plant neu bobl ifanc i ddatrys unrhyw heriau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau bob dydd a byw mewn grŵp
18. grymuso plant neu bobl ifanc ac eraill i adolygu eu cynnydd a'u canlyniadau

19. annog plant neu bobl ifanc i adolygu’r cryfderau maent yn eu cynnig i grwpiau
20. gweithio gyda phlant neu bobl ifanc i gytuno ar newidiadau i’w gweithgareddau bob dydd a byw mewn grŵp
21. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc ac eraill i roi adborth ar wella ansawdd gofal a byw mewn grŵp
22. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp
23. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hybu arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am anghenion plant a phobl ifanc o ran cyfathrebu, iaith a datblygiad
2. pwysigrwydd perthnasoedd o ran teimlo'n ddiogel, eich bod yn cael eich cynnwys, ac yn cael gofal
3. ffactorau sy'n achosi risgiau a'r rhai sy'n sicrhau gofal diogel ac effeithiol i blant a phobl ifanc
4. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma mewn arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp
5. sut mae stigma yn effeithio ar blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o fyw mewn grŵp
6. sut mae adnabod ymddygiad fel ffordd o gyfathrebu
7. rôl cyfathrebu effeithiol o ran cefnogi plant a phobl ifanc i gael eu clywed a'u deall
8. ffyrdd o gadw plant a phobl ifanc wrth galon eu gofal a'u cefnogaeth
9. sut mae gweithio'n hyblyg i gwrdd â dewisiadau ac anghenion unigolion a grwpiau
10. pwysigrwydd datblygu a hybu perthnasoedd cyson, gofalgar a meithringar
11. sut mae cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu dulliau rheoleiddio emosiynol
12. sut mae cefnogi plant a phobl ifanc i osod a chynnal ffiniau parchus
13. pwysigrwydd cynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau am eu bywydau
14. yr effaith gadarnhaol y gall rhyngweithio grŵp a phrofiadau ar y cyd ei chael ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc
15. sut a ble i gael gafael ar wybodaeth a chymorth ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc
16. sut mae cefnogi niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol mewn arferion gofal plant a byw mewn grŵp
17. pwysigrwydd perthnasoedd sefydlog ac effaith ansicrwydd a newid
18. dylanwad diwylliant a chefndir ar arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp
19. sut mae gweithio mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc ac eraill i gynllunio, monitro a gwerthuso canlyniadau
20. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi mewn arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp

21. dulliau gweithio mewn grŵp a deinameg ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu a ffynnu
22. sut mae sicrhau'r lefel briodol o gymorth lle mae ei angen
23. ffactorau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i ffynnu a chyflawni eu llawn botensial wrth fyw mewn grŵp
24. sut mae ymateb i faterion a phryderon sy'n codi wrth fyw mewn grŵp
25. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp
26. sut mae defnyddio tystiolaeth i ddangos cynnydd a gwerthuso canlyniadau
27. sut mae gwasanaethau, perthnasoedd a byw mewn grŵp yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cyfleoedd ar gyfer twf
28. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol wrth hybu arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp
29. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp
30. theorïau sy'n berthnasol i hybu arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp
31. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp
32. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp
33. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp, a sut i fynd i'r afael â hyn
34. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

# Hybu arferion gofal plant wrth fyw mewn grŵp

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD369 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Arferion Plant, Byw mewn Grwp, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |